**Rhif: WG34302**

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Dysgu Oedolion yng Nghymru

Ymgynghoriad ar strwythur ariannu a chyflenwi dysgu oedolion yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mehefin 2018
Cam gofynnol: Ymatebion erbyn 13 Medi 2018

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae angen i Lywodraeth Cymru ddeall barn darparwyr dysgu oedolion (mewn awdurdodau lleol, colegau a'r trydydd sector), dysgwyr sy'n oedolion, teuluoedd a'r cyhoedd ar ein cynigion i wella'r ffordd rydym yn cyflenwi ac yn ariannu dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru.<br><br>Bydd hyn yn helpu Gweinidogion Cymru i benderfynu sut i ddyrannu'r arian sydd ar gael iddynt yn y ffordd fwyaf effeithlon i sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn cael mynediad cyfartal a theg i'r ddarpariaeth a ariennir gan y Llywodraeth fel y nodir yn ein datganiad polisi Dysgu Oedolion yng Nghymru yn 2017. |
| **Sut i ymateb** | Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw 13 Medi 2018. Gallwch ymateb yn un o'r ffyrdd canlynol.<br><br>**Ar-lein**: Llenwch y ffurflen ar-lein.<br><br>**E-bost:** Lawrlwythwch y ffurflen ymateb a'i hanfon i:<br>Post16PlanningandFunding@gov.wales<br><br>**Post:**<br>Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:<br>Helen Scaife<br>Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau<br>Llywodraeth Cymru<br>Tŷ'r Afon<br>Ffordd Bedwas<br>Bedwas<br>Caerffili<br>CF83 8WT |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.<br><br>Datganiad polisi *Dysgu Oedolion yng Nghymru* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017 –<br>http://llyw.cymru/topics/educationandskills/learningproviders/communitylearning/adult-learning-in-wales/?lang=cy |
| Manylion cysylltu | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:<br><br>Helen Scaife<br>Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau<br>Llywodraeth Cymru<br>Tŷ'r Afon<br>Ffordd Bedwas<br>Bedwas<br>Caerffili<br>CF83 8WT<br>e-bost: Post16PlanningandFunding@gov.wales<br>ffôn: 0300 025 3895 |

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achredig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu’r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a’u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data
- (o dan rai amgylchiadau) i’ch data gael eu ‘dileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane

| | |
|---|---|
| CF10 3NQ<br><br>e-bost:<br>Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru | Wilmslow<br>Cheshire<br>SK9 5AF<br>Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113<br>Gwefan: https://ico.org.uk/ |

# Cynnwys

**Rhagair y Gweinidog** **1**

**Yr Achos dros Newid** **3**

**Pennod 1 – Cyflenwi dysgu oedolion yng Nghymru** **5**

Cynllunio ac Adrodd **5**

Cyflenwi'r ddarpariaeth dysgu oedolion **7**

**Pennod 2 – Ariannu Dysgu Oedolion yng Nghymru** **13**

Opsiynau ar gyfer newid y ffordd rydym yn dosbarthu'r Grant Dysgu yn y Gymuned **15**

**Casgliad** **23**

# Rhagair y Gweinidog

Amcan allweddol Llywodraeth Cymru yw sicrhau ffyniant i bawb.

Mae *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol* yn gynllun traws-lywodraethol i'n helpu ni a'n partneriaid i ganolbwyntio egni ac adnoddau'r gwasanaeth cyhoeddus cyfan, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau mwyaf sylfaenol y mae'r genedl yn eu hwynebu.

Mae'n egluro ein gweledigaeth ar gyfer cymdeithas sy'n uchelgeisiol ac yn dysgu. Mae ein ffyniant a'n sefydlogrwydd yn y dyfodol yn dibynnu ar sgiliau a gwerthoedd pobl Cymru, a chredwn fod pawb yn haeddu'r cyfle i gyflawni eu potensial. Hefyd, fel cymdeithas, rwyf am i ni gydnabod gwerth dysgu.

Fe wnaethom gyhoeddi ein datganiad polisi diwygiedig ar *Ddysgu Oedolion yng Nghymru* ym mis Gorffennaf 2017. Roedd yn diffinio ein blaenoriaethau ar gyfer dysgu oedolion am weddill tymor y Cynulliad hwn, ac yn ailddatgan ein hymrwymiad i gefnogi dysgu gydol oes yng Nghymru.

Mae dysgu gydol oes yn cefnogi nifer o bolisïau eraill; nid mater o addysg yn unig ydyw. Yn ogystal â chynyddu lefelau sgiliau cyffredinol – yn enwedig wrth dargedu'r gwelliant mewn sgiliau hanfodol – mae dysgu oedolion yn helpu i gefnogi polisïau integreiddio cymdeithasol ehangach. Yn aml mae'n borth i gynnydd ar gyfer rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed; ac ail gyfle hanfodol i lawer. Fel llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bawb, o bob cefndir, y cyfleoedd priodol i wella eu bywydau. Mae addysg yn hollbwysig, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod dysgwyr, beth bynnag fo'u hoedran, yn cael y cyfle i lwyddo.

Ar hyn o bryd rydym wrthi'n datblygu system newydd a fydd yn gweddnewid y ffordd rydym yn darparu pob math o addysg ôl-orfodol yng Nghymru. Bydd y **Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru** yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol ar gyfer y sector cyfan, gan gynnwys dysgu oedolion ac yn gweithio i fynd i'r afael â chymhlethdod a dyblygu.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn gwneud cyfraniad pwysig at hynny. Wrth i ni symud tuag at sefydlu'r Comisiwn, rhaid i ni sicrhau bod y cydrannau'n gweithio'n effeithiol. Mae dysgu oedolion yn y gymuned wedi bod fel rhyw berthynas tlawd i ddysgu ôl-16 ehangach ers llawer gormod o amser. Mae'n bryd newid hynny, ac i ni gydnabod y cyfraniad hanfodol y mae'r sector hwn yn ei wneud at ddyfodol ein cymdeithas a'r economi.

Mae'r system sydd gennym ar hyn o bryd ar gyfer ariannu a chyflenwi dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru yn anghyfartal ac yn gynaliadwy. Rhaid ei newid i sicrhau bod gennym system ar waith sy'n galluogi dysgwyr i gael mynediad at ddarpariaeth lle bynnag y maent yng Nghymru.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn egluro'n cynigion ar gyfer newid. Mae angen eich cymorth chi arnom i benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithlon a phriodol ymlaen. Mae'r ddogfen yn cyflwyno sawl opsiwn ar gyfer gwella'r ffordd rydym yn ariannu a chyflenwi dysgu oedolion, ond gan gydnabod natur gyfyngedig yr arian sydd ar gael.

Efallai bod yna opsiynau eraill nad ydynt wedi'u hystyried eto;  ac rydym yn croesawu pob awgrym. Dyma'ch cyfle chi i gyfrannu eich syniadau a'ch barn. Rwy'n annog pawb sydd â buddiant mewn dysgu oedolion i gyfrannu eu safbwyntiau.

## Yr achos dros newid

Yn 2016, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddau adolygiad i helpu i wneud penderfyniadau ynghylch unrhyw broblemau sy'n wynebu'r sector dysgu oedolion yng Nghymru. Mae'r ddau adolygiad i'w gweld ar y wefan yn y dogfennau ategol ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.

Yn y cyntaf, sef *Adolygiad o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru* gan Ymchwil Arad, gwnaed chwe argymhelliad a thynnwyd sylw at natur annheg ac anghynaliadwy'r strwythur a'r cyllid presennol ar gyfer addysg oedolion yng Nghymru.

Roedd yr adroddiad yn galw am ymrwymiad newydd i ddysgu oedolion gan y llywodraeth, ac am ganfod methodoleg ariannu mwy cyfiawn a chynaliadwy i gefnogi cyflenwi.

Cyflwynodd y dystiolaeth a roddwyd yn yr adolygiad achos clir dros newid yn y ffordd y mae dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru yn cael ei ariannu a'i gyflenwi.

Cynhaliwyd yr ail adolygiad gan Estyn a'i deitl oedd *Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru 2015-2016.* Cyflwynodd yr adroddiad hwn achos clir dros newid yn y sector hefyd.

Mewn ymateb i'r adroddiadau hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi diwygiedig ar ddysgu oedolion – Dysgu Oedolion yng Nghymru – ym mis Gorffennaf 2017 a chyflwynodd ei blaenoriaethau ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad. Prif ddiben yr ymgynghoriad hwn yw hwyluso broses o gyflwyno'r ddarpariaeth hon yn effeithiol.

Er mwyn i'r polisi gael yr effaith rydym ei eisiau iddo'i gael, rhaid i ni sicrhau bod gennym systemau cyflenwi ac ariannu ar waith sy'n gadarn, yn cynnig her ac yn hyblyg.

Dyma'r hanfodion y mae'n rhaid i ni ymdrechu i'w cyflawni wrth ailstrwythuro ein systemau ariannu a chyflenwi:

- Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth fod yn gyson o ran cynnig ac ansawdd i ddysgwyr ledled Cymru;
- Mae'n rhaid i ddarpariaeth sy'n cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fod ar gael i bob dysgwr ledled Cymru, ble bynnag fo'i leoliad neu beth bynnag fo'i amgylchiadau;
- Mae'n rhaid i'r fethodoleg ariannu alluogi i arian gael ei ganolbwyntio ar y rhai sydd angen ein cymorth fwyaf, a chynorthwyo darparwyr i gyflenwi cwricwlwm sy'n helpu pobl yn ôl i ddysgu ac yn targedu dileu tlodi;
- Mae'n rhaid i'r system hwyluso cynllunio darpariaeth mewn ffordd sy'n fwy strategol a chynaliadwy er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni effeithiau cadarnhaol hirdymor o'n buddsoddiad.

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Nod yr ymgynghoriad hwn yw sicrhau bod ein darpariaeth dysgu oedolion yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn.

Mae'r ddogfen ymgynghori wedi'i rhannu'n ddwy bennod:

1. Cyflenwi dysgu oedolion yng Nghymru
2. Ariannu dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru

# Pennod 1 - Cyflenwi dysgu oedolion yng Nghymru

Er ei bod hi'n anorfod bod y swm o arian a ddyrennir i ddysgu oedolion yn effeithio ar yr hyn y gellir ei gyflenwi, mae'r ffordd y mae'r ddarpariaeth yn cael ei chyflenwi, a phwy sy'n ei chyflenwi yn cael effaith sylfaenol ar ei heffeithiolrwydd a'i hygyrchedd.

Awgrymodd yr adolygiadau a wnaed gan ARAD ac Estyn y gellid gwneud gwelliannau i strwythur cyflenwi dysgu oedolion a'r dulliau casglu data sydd ar waith ar hyn o bryd.

Er mwyn datblygu'r gwaith hwn ymhellach, ac i lywio cynnwys y ddogfen ymgynghori hon, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru nifer o weithdai gyda chynrychiolwyr o'r sector dysgu oedolion. Canolbwyntiodd y gweithdai ar y gwahanol fodelau cyflwyno sy'n cael eu hystyried yn bennaf, ond cafodd materion eraill eu codi hefyd - y fethodoleg gynllunio ac adrodd bresennol sydd ar waith, a rôl partneriaethau wrth ddarparu dysgu oedolion.

O ganlyniad i'r gwaith a wnaed gyda'r sector, trefnwyd yr adrannau canlynol o'r ddogfen ymgynghori i'n helpu ni i gael darlun ehangach o'ch barn a'ch safbwyntiau am ba welliannau y gellid eu gwneud i gefnogi'r gwaith o gyflenwi dysgu oedolion.

## Cynllunio ac Adrodd

Mae'r fethodoleg gynllunio bresennol ar gyfer dysgu oedolion yn golygu bod Awdurdodau Lleol yn cyflwyno Cynlluniau Cyflenwi Gwasanaeth blynyddol (CCG) sy'n egluro'r hyn y bwriadant ei gyflenwi ar draws y meysydd blaenoriaeth allweddol.

Gan fod y cyllid y mae pob awdurdod lleol yn ei dderbyn yn sefydlog, ac nid yn seiliedig ar nifer y dysgwyr nac angen, nid yw'r dogfennau cynllunio'n fecanweithiau effeithiol iawn ar gyfer meincnodi neu fonitro. Nid ydynt yn cynnwys targedau penodol ac nid yw'n hawdd gweld yn union pa gyrsiau sy'n cael eu cyflenwi bob amser.

Mewn cyferbyniad, mae'n rhaid i Golegau AB ddisgrifio eu darpariaeth arfaethedig yn llawer mwy manwl yn eu dogfennau cynllunio, sy'n gwneud atebolrwydd yn haws ac yn sicrhau bod darparwyr yn gwybod beth yw'r targedau penodol y maent yn ceisio'u cyflawni. Mae'n rhoi rhesymeg i Lywodraeth Cymru hefyd ynghyd â phroses sy'n ein galluogi i herio darpariaeth yn effeithiol. Rydym yn casglu data, ac yn ei ddefnyddio i gael gwybodaeth ar niferoedd dysgwyr ac effeithiolrwydd ein darpariaeth trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Mae hyn yn ein galluogi i groeswirio'r hyn a gyflenwir yn erbyn y cynlluniau uchod. Mae hyn yn ein helpu i ddeall yn union pa ddarpariaeth sydd ar gael a pha mor effeithiol ydyw o ran helpu dysgwyr i gyflawni eu nodau.

Wrth ailstrwythuro'r dull o gyflenwi dysgu oedolion yn y gymuned, byddem hefyd yn ceisio gwella cysondeb a chywirdeb y prosesau cynllunio a chofnodi data a ddefnyddiwn.

## Casgliad

Mae sicrhau bod gennym ddull cadarn ac atebol o gynllunio ac adrodd ar gyfer dysgu oedolion yn elfen hanfodol o newid y strwythur a'r dull ariannu.

Er mwyn datblygu'r gwaith hwn, rydym yn cynnig y canlynol:

- Dylai fod yn ofynnol i bob darparwr, boed mewn awdurdodau lleol neu sefydliadau addysg bellach, gynllunio eu darpariaeth gan ddilyn y Canllawiau Cynllunio a Chyllido Ôl-16 ar gyfer darpariaeth Ran-amser, ac i adlewyrchu'r blaenoriaethau sydd yn natganiad polisi *Dysgu Oedolion yng Nghymru*;
- Bydd disgwyl i ddarparwyr gofnodi data am eu dysgwyr a'u cyrsiau ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i sicrhau y gallwn fonitro darpariaeth yn gywir ac yn effeithiol.

Mae copi o'r Fframwaith Cynllunio a Chyllido ar gael drwy'r rhyngrwyd yn nogfennau ategol yr ymgynghoriad.

**Mae cael methodoleg cynllunio ac adrodd atebol a dibynadwy yn elfen hanfodol o broses ailstrwythuro'r sector.**

**C1 - Ydych chi o'r farn y dylai'r sector dysgu oedolion gynllunio ac adrodd ar ddarpariaeth yn unol â'r fframwaith cynllunio ôl-16 ar gyfer AB ran-amser?**

**C2 - Pa fanteision neu anfanteision ydych chi'n eu gweld o fynd ati i roi'r camau hyn ar waith?**

**C3 - Os nad ydych yn cytuno â'r cynnig hwn, pa ddull fyddech chi'n ei awgrymu?**

## Cyflenwi darpariaeth dysgu oedolion

Caiff darpariaeth dysgu oedolion yng Nghymru ei chyflenwi a'i hariannu mewn nifer o ffyrdd gwahanol ar hyn o bryd:

- Yn uniongyrchol gan Awdurdodau Lleol gan ddefnyddio'r Grant Dysgu Cymunedol;
- Yn uniongyrchol gan Sefydliadau Addysg Bellach gan ddefnyddio eu harian Dyraniad AB;
- Yn uniongyrchol gan Awdurdodau Lleol trwy gyfuniad o'r Grant Dysgu Cymunedol a chytundebau masnachfraint gyda cholegau;
- Yn uniongyrchol gan sefydliadau Addysg Bellach drwy gyfuniad o'u Dyraniad AB eu hunain a Chytundebau Lefel Gwasanaeth neu Gytundebau Cyflenwi gydag awdurdodau lleol sy'n trosglwyddo'u Grant Dysgu Cymunedol i'r coleg ar gyfer cyflenwi.

O fewn y sector, mae llawer iawn o amrywiaeth rhwng y darparwyr a faint o arian a fuddsoddir mewn cyflenwi.

**Partneriaethau**

Roedd pwysigrwydd partneriaethau strategol yn neges gyson a gafwyd yn yr holl weithdai a gynhaliwyd gyda'r sector, ac roedd yn neges glir o Adolygiadau ARAD ac Estyn.

Sut bynnag y byddwn yn dewis ariannu a chyflenwi dysgu oedolion, mae'n amlwg bod y ddarpariaeth wedi bod fwyaf llwyddiannus o gael ei chyflenwi gyda chefnogaeth partneriaeth strategol dda. Nid ydym o'r farn mai rôl Llywodraeth Cymru yw dweud wrth ddarparwyr pa bartneriaethau strategol y dylent eu ffurfio. Y darparwyr eu hunain ddylai benderfynu pa bartneriaid y bydd angen iddynt weithio gyda nhw er mwyn sicrhau bod eu darpariaeth yn effeithiol ac yn hygyrch.

Fodd bynnag, wrth ystyried yr holl opsiynau rydym yn eu cyflwyno isod, rydym yn cydnabod y bydd gweithio mewn partneriaeth strategol yn hanfodol i lwyddiant pob un ohonynt. Byddwn yn cynorthwyo darparwyr i ganfod partneriaethau effeithiol er mwyn mynd ati i wneud pa bynnag newidiadau y mae'r ymgynghoriad hwn yn eu hysgogi.

Bydd yn bwysig hefyd wrth i ni ddatblygu darpariaeth ddysgu ymhellach bod darparwyr yn gweithio'n agos gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth dysgu oedolion yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Partneriaethau. Er bod ffocws cyfredol dysgu oedolion ar sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at ddarpariaeth i'w cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau sylfaenol, bydd yn bwysig i ddysgwyr gael llwybrau dilyniant hysbys naill ai'n uniongyrchol i gyflogaeth neu i gyfleoedd dysgu pellach. Rhaid i'r rhain gyd-fynd â'r blaenoriaethau ehangach ar gyfer y sector ôl-16.

**Opsiynau ar gyfer y dyfodol**

Mae swyddogion wedi gweithio gyda'r sector i ystyried pa opsiynau a allai fod ar gael i wella'r ffordd y cyflenwir dysgu oedolion.

**Ein prif ffocws wrth ddrafftio'r cynigion yn y ddogfen hon yw datblygu strwythur sy'n cefnogi dysgwyr yn y ffordd orau i gyrraedd eu potensial.** Mae dysgwyr yn ganolog i'r holl opsiynau hyn a'n nod yw cael system sy'n gwneud mynediad i'n darpariaeth yn deg ac yn gyfartal i bawb ble bynnag maent yn byw yng Nghymru.

**Model 1 – Awdurdodau Lleol a/neu Golegau Addysg Bellach i gyflenwi dysgu i oedolion**

Byddai'r model hwn yn cadw llawer o strwythur presennol cyflenwi dysgu oedolion, ond byddem yn ffurfioli rhai o'r strwythurau ad hoc sydd ar waith ar hyn o bryd.

**Ariannu**

Byddai ariannu'r model hwn yn cynnwys cyfuniad o'r Grant Dysgu Cymunedol a dyraniadau AB prif ffrwd.

Pan mai awdurdod lleol yw'r darparwr arweiniol, byddai'r Grant Dysgu Cymunedol yn parhau i gael ei dalu; ond byddai'n cael ei ddyrannu yn ôl methodoleg ariannu ddiwygiedig (mae'r manylion ym Mhennod 2).

Pan mai Coleg AB yw'r darparwr arweiniol, bydd yn derbyn yr arian cyfatebol i'r Grant Dysgu Cymunedol ar gyfer yr ardaloedd awdurdod lleol o fewn eu hawdurdodaeth (fel y'i dyrennir drwy'r model cyllido diwygiedig); ni fyddai'r awdurdodau lleol perthnasol yn derbyn y Grant Dysgu Cymunedol yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru mwyach.

Ym mhob achos, byddai disgwyl i'r darparwr arweiniol sicrhau y cyflawnir y blaenoriaethau a amlinellir ym mholisi *Dysgu Oedolion yng Nghymru*, a'r blaenoriaethau a nodir gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

Byddai'r darparwr arweiniol, boed yn awdurdod lleol neu Goleg AB, yn arwain y gwaith o gynllunio ac adrodd ar gyflenwi'r ddarpariaeth; ond bydd disgwyl iddynt weithio'n agos gyda darparwyr eraill yn eu hardal i sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol ac yn hygyrch ar draws y rhanbarth.

**Effaith**

Mewn llawer o achosion, byddai'r model cyflenwi hwn yn gwneud dim mwy na ffurfioli'r systemau cyfredol sydd ar waith; a byddai'n cadw llawer o'r arferion da sydd ar waith ar hyn o bryd.

Y darparwr arweiniol fyddai'n gyfrifol am weithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill, gan gynnwys Addysg Oedolion Cymru i sicrhau nad ydynt yn dyblygu darpariaeth nac yn creu cystadleuaeth ddiangen am ddysgwyr.

Byddai cyflwyno system gynllunio fwy cadarn yn gwella atebolrwydd a meincnodi ar draws y sector, a byddai'n galluogi pob awdurdod lleol a choleg i ganolbwyntio arian a chyflenwi yn y meysydd hynny lle mae'r angen mwyaf. Mewn rhai ardaloedd lle mae Colegau Addysg Bellach yn cyflenwi'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth eisoes, byddai'r system hon yn ceisio cynyddu'r buddsoddiad presennol mewn dysgu oedolion yn yr ardal.

Fodd bynnag, mae rhai risgiau cynhenid gyda'r model cyflenwi hwn.

Nid yw'r cyllid presennol a ddyrennir i SABau wedi'i neilltuo ar gyfer unrhyw ddiben penodol. Er mwyn sicrhau bod y cyllid ychwanegol hwn yn canolbwyntio ar ddarparu dysgu oedolion, efallai y bydd angen cyflwyno dull neilltuo penodol i amddiffyn dysgwyr sy'n oedolion yn yr ardaloedd hynny lle mai'r coleg yw'r darparwr arweiniol.

Gallai peidio â chyllido rhai awdurdodau lleol yn uniongyrchol arwain yn anfwriadol at ddiddymu'r timau hynny. Gallai peidio â chael tîm awdurdod lleol i weithio gydag ef effeithio'n sylweddol ar allu'r AB i gyflenwi'n effeithiol.

Er y gallai symud yr arian i AB gynyddu eu buddsoddiad mewn dysgu oedolion, gallai peidio ag ariannu'r Grant Dysgu Cymunedol arwain at yr awdurdod lleol ei hun yn rhoi terfyn ar ei gefnogaeth ehangach i ddysgu oedolion. Mewn llawer o achosion, mae awdurdodau lleol yn buddsoddi cyllid ychwanegol (o'r Grant Cynnal Refeniw) yn y gwaith o gyflenwi dysgu oedolion; ac yn ddieithriad yn cynnig cymorth trwy staffio a seilwaith (adeiladau ac ati) a allai gael ei golli i gyd pe bai'r Grant Dysgu Cymunedol yn dod i ben.

**C4 - Ydych chi o'r farn mai cynorthwyo Awdurdodau Lleol a/neu Golegau AB i gynllunio a chyflenwi dysgu oedolion yw'r ffordd orau o sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chyflenwi'n deg a chyfiawn ledled Cymru?**

**C5 - Os ydym yn dyrannu cyllid ychwanegol i golegau AB, ydych chi'n meddwl y dylem neilltuo'r arian hwn (ei glustnodi'n benodol) i sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio'n llwyr ar ddysgu oedolion?**

**Model 2 – Partneriaethau Dysgu Oedolion i arwain y gwaith o gyflenwi dysgu oedolion**

Mae Model 2 yn debyg iawn i Fodel 1, ond yn hytrach nag ariannu darparwr arweiniol yn annibynnol, byddai'r model hwn yn golygu ariannu partneriaethau strategol yn uniongyrchol fel endidau penodol. Felly, byddai'r bartneriaeth yn gyfrifol, ar y cyd, nid yn unig i gynllunio darpariaeth addysg oedolion ar draws eu hardal yn strategol, ond hefyd i reoli'r arian a ddyrennir iddo.

Er mwyn i hyn fod yn effeithiol, byddai arian ar gyfer pob partneriaeth yn cael ei benderfynu trwy fodel diwygiedig ar gyfer dosbarthu a dyrannu'r Grant Dysgu Cymunedol – fel y trafodir ym Mhennod 2 y ddogfen hon.

Er y byddai'r dyraniad yn cael ei wneud yn ôl ardal awdurdod lleol (fel y trafodir ym Mhennod 2) a'i ddarparu i'r bartneriaeth strategol yn ei chyfanrwydd; er mwyn iddo fod yn hylaw, byddai sefydliad arweiniol yn cael ei ddewis ym mhob partneriaeth a fyddai'n derbyn yr arian yn uniongyrchol, ac yn gyfrifol am reoli a dosbarthu'r arian yn unol â chynllun strategol y bartneriaeth. Gallai'r sefydliad arweiniol hwn fod yn awdurdod lleol neu'n Sefydliad Addysg Bellach.

Ni fyddai Llywodraeth Cymru'n pennu aelodaeth y partneriaethau strategol – byddai'r darparwyr yn gyfrifol am benderfynu ar y partneriaethau a fyddai'n fwyaf effeithiol iddyn nhw – ac mae'n bosib y gallent gwmpasu mwy nag un ardal awdurdod lleol.

**Effaith**

Byddai partneriaethau ariannu'n canolbwyntio'r arian yn rhanbarthol yn yr ardaloedd lle'r oedd ei angen fwyaf, ac yn lleihau biwrocratiaeth yn sylweddol. Byddai'n ofynnol i

bartneriaethau gynhyrchu un cynllun strategol i gwmpasu'r gwaith cyflenwi ar draws y rhanbarth; a byddai arian yn cael ei ddyrannu i lawer llai o sefydliadau unigol.

Byddai disgwyl i ddarparwyr weithio'n agos gyda'i gilydd o fewn y bartneriaeth i sicrhau bod cyllid wedi'i ddosbarthu'n deg ac yn gyfartal, er mwyn lleihau dyblygu a biwrocratiaeth, a galluogi i fwy o arian gefnogi'r ddarpariaeth yn uniongyrchol.

Lle mae partneriaethau presennol yn gweithio'n dda eisoes, byddai'r model hwn yn gwneud dim mwy na ffurfioli prosesau a threfniadau presennol. Fodd bynnag, mewn rhai rhanbarthau lle na fydd partneriaethau presennol yn ddigon cadarn eto, byddwn yn gweithio gyda darparwyr i gryfhau'r bartneriaeth a sicrhau bod strwythurau, gwaith cynllunio a chyflenwi'n cael eu cefnogi ar draws pob ardal.

Fodd bynnag, mae risgiau'n gysylltiedig â'r dull hwn. Gallai penderfynu ar bartner arweiniol i fod yn gyfrifol am weinyddu'r arian grant fod yn broblem a chreu anghydfod yn y bartneriaeth. Yn ogystal, gallai effaith peidio â chael grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru olygu na fyddai awdurdodau lleol yn gallu cefnogi darpariaeth dysgu oedolion yn eu hardal mwyach.

**C6 - Ydych chi o'r farn mai cynorthwyo partneriaethau'n uniongyrchol i gyflenwi dysgu oedolion fyddai'r ffordd orau o sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chyflwyno'n deg ledled Cymru?**

**C7 - Ydych chi o'r farn bod y partneriaethau presennol yn ddigon cadarn ac wedi'u strwythuro'n ddigon da i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn?**

### Model 3 - Coleg Cymunedol Cenedlaethol i gydlynu a chynllunio'r gwaith o gyflenwi dysgu oedolion ledled Cymru

Byddai Model 3 yn cefnogi un sefydliad i weithredu fel cydlynydd cenedlaethol ar gyfer dysgu oedolion ledled Cymru; a byddai'n golygu rhoi diwedd ar y Grant Dysgu Cymunedol.

Yn hytrach, byddai'r cyllid a ddyrennir i awdurdodau lleol drwy'r Grant Dysgu Cymunedol ar hyn o bryd yn cael ei gyfuno a'i ddarparu fel grant bloc i un sefydliad a fyddai'n gyfrifol am gynllunio a chydlynu'r gwaith o gyflenwi dysgu oedolion yn strategol - gan is-gontractio i ddarparwyr eraill fel bo'r angen.

Gallai cael un sefydliad canolog yn cynllunio'n strategol gynnig dull mwy safonol; a sicrhau bod cwricwlwm cyson yn cael ei gyflenwi ledled Cymru. Yr her fyddai cynnal hyblygrwydd ar gyfer amrywiadau diwylliannol a lleol gyda'r gallu i roi contractau i eraill a chomisiynu gwaith cyflenwi ganddynt.

Byddai'n ofynnol i'r sefydliad sicrhau y rhoddir sylw i'r anghenion a nodwyd gan bob un o'r tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn ogystal ag ymateb yn effeithiol i anghenion lleol.

Ni fyddai disgwyl i'r sefydliad gyflenwi'r holl ddarpariaeth ei hun. Byddai'r cyflenwi'n dibynnu ar ddatblygu model partneriaeth strategol yn cael ei datblygu i ymgysylltu â darparwyr eraill (gan gynnwys awdurdodau lleol, AB a'r trydydd sector) i gyflenwi'r ddarpariaeth.

Byddai creu endid o'r fath yn golygu bod gofyn i un o'r ddau opsiwn canlynol gael ei ddewis:

**(i) Caffael gwasanaeth trwy ymarfer tendro llawn neu broses grantiau gystadleuol.**

Oherwydd lefel yr arian sydd ar gael ar gyfer yr opsiwn hwn, byddai angen proses dendro lawn ar lefel yr UE. Byddai hon yn broses hir a biwrocrataidd ac yn cymryd o leiaf chwe mis i'w chyflawni.

Er y byddai hyn yn sicrhau tegwch a thryloywder, byddai'n broses hir iawn, ac yn cynnwys tendro agored ar draws yr UE.

At hynny, byddai angen i unrhyw gontract fod yn llawer hirach na blwyddyn pe bai i ddenu unrhyw ymateb rhesymol – ni fyddai hyn yn bosib gyda dyraniad cyllideb blynyddol.

**(ii) Defnyddio Sefydliad Addysg Bellach (SAB) presennol i ddarparu'r swyddogaeth hon**

Er enghraifft, mae gan Lywodraeth Cymru'r pwerau i gynyddu'r cyllid cyfredol i Addysg Oedolion Cymru, neu sefydliad arall, i ymestyn eu rôl i ymgymryd ā'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn.

Yn yr enghraifft hon, byddai'r dyraniad cyfredol i'r SAB yn cael ei gynyddu yn unol â'r swm o arian a ddyrennir o fewn y Grant Dysgu Cymunedol ar hyn o bryd.

**Effaith**

Byddai Coleg Cenedlaethol yn cael ei ariannu gan ddefnyddio'r arian a ddyrennir i'r Grant Dysgu Cymunedol ar hyn o bryd (naill ai fel swm annibynnol, neu, yn achos sefydliad sy'n bodoli eisoes fel ychwanegiad at eu dyraniad presennol). Er mwyn cadw annibyniaeth coleg cenedlaethol, byddai'n cael ei adael i'r sefydliad wneud penderfyniadau a sicrhau y gellid targedu cyllid lle'r oedd ei angen fwyaf; ond byddai disgwyl i'r coleg ddatblygu methodoleg a oedd yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei thargedu i fynd i'r afael ag amddifadedd ac angen ar draws Cymru gyfan.

Byddai llwyddiant sefydliad unigol yn dibynnu ar y gallu i weithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill, ond gan na fyddent yn derbyn y Grant Dysgu Cymunedol mwyach, efallai na fydd awdurdodau lleol yn gallu cefnogi darpariaeth dysgu oedolion yn eu hardaloedd mwyach. Y risg fyddai y byddem yn colli llawer o flynyddoedd o arbenigedd, ac isadeiledd sy'n bodoli eisoes.

Gallai cael un sefydliad gyda chyfrifoldeb am gynllunio'r broses gyflenwi'n strategol fod yn ateb i'r problemau sy'n wynebu dysgu oedolion heb os. Byddai'n sicrhau trosolwg strategol, yn darparu siop un stop ar gyfer dysgwyr, ac yn sicrhau lefel o gysondeb yn y cynnig sy'n ddiffygiol ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae perygl y byddai angen cael llu o haenau er mwyn bod yn effeithiol a fyddai'n ei wneud yn rhy fiwrocrataidd. Gallai penderfyniadau a wneir er lles cenedlaethol danseilio blas lleol y ddarpariaeth yn ddifrifol a'i atal rhag bod â'r hyblygrwydd sydd ei angen arno i wasanaethu carfan o gleientiaid sy'n newid yn gynyddol.

**C8 - Ydych chi o'r farn y byddai cynorthwyo un corff strategol cenedlaethol i oruchwylio cynllunio strategol a chyflenwi dysgu oedolion yn sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chyflenwi'n deg a chyfartal ledled Cymru?**

**C9 - Ydych chi o'r farn y dylai'r corff gael ei gaffael?**

**C10 - Ydych chi o'r farn y dylid rhoi'r dasg o gyflawni'r rôl hon i SAB sy'n bodoli eisoes?**

**Trafodaeth**

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer dysgu oedolion yng Nghymru yn glir. Rydym am gefnogi pob dysgwr i ddatblygu eu sgiliau hanfodol i'w galluogi i ymgysylltu'n weithredol yn ein cymdeithas a chwilio am waith priodol lle gallant.

Mae'r tri opsiwn a amlinellwyd gennym yn ddewisiadau ymarferol ar gyfer cyflenwi Dysgu Oedolion yng Nghymru yn y dyfodol. Gallai pob un o'r opsiynau hyn sicrhau mynediad tecach at ddarpariaeth i'n holl ddysgwyr, ond nid oes yr un o'r opsiynau heb risgiau cynhenid. Nid oes modd osgoi hyn. Bydd canlyniadau i unrhyw opsiwn a ddewisir, ond rydym am sicrhau ein bod yn dewis opsiwn sy'n rhoi mwy o allu a diogelwch i ni ar gyfer y ddarpariaeth hanfodol hon yn y blynyddoedd i ddod. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr ar draws y sector dysgu oedolion i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ac i sicrhau bod dysgwyr yn cadw mynediad at y ddarpariaeth. Byddwn yn ystyried yr heriau hyn wrth fwrw ymlaen â'r newidiadau sydd eu hangen a byddwn yn gweithio gyda darparwyr lleol i sicrhau bod pa bynnag opsiwn a ddewisir yn cefnogi darpariaeth effeithiol a theg i'w dysgwyr.

Wrth ystyried eich ymatebion i'r ymgynghoriad, cofiwch ystyried y dysgwyr rydym ni yma i'w cefnogi yn anad dim. Ni all yr opsiwn a ddewisir fod er budd darparwyr unigol na Llywodraeth Cymru. Mae gennym ddyletswydd i ddarparu darpariaeth resymol i oedolion, ac mae'n hollbwysig ein bod ni'n gwneud hynny mor effeithiol â phosib.

**C11 - Pa un o'r tri model a amlinellir fyddai fwyaf effeithiol o ran sicrhau bod y ddarpariaeth yn deg ac yn hygyrch i ddysgwyr ledled Cymru gyfan?**

- Model 1 – Local Awdurdodau lleol a / neu Golegau Addysg Bellach i arwain y gwaith o gyflenwi dysgu oedolion
- Model 2 – Partneriaethau Dysgu Oedolion i arwain y gwaith o gyflenwi dysgu oedolion
- Model 3 – Un Coleg Cymunedol Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Oedolion

**C12 - Pa un o'r tri model a amlinellir fyddai fwyaf effeithiol o ran sicrhau bod y ddarpariaeth yn deg ac yn hygyrch i ddysgwyr ar draws eich awdurdod unedol?**

- Model 1 – Awdurdodau Lleol a/neu Golegau Addysg Bellach i arwain y gwaith o gyflenwi dysgu i oedolion
- Model 2 – Partneriaethau Dysgu Oedolion i arwain y gwaith o gyflenwi dysgu oedolion
- Model 3 – Un Coleg Cymunedol Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Oedolion

## Pennod 2 - Ariannu dysgu oedolion yng Nghymru

Wrth ystyried sut i ailstrwythuro'r gwaith o gyflenwi dysgu oedolion, mae'n bwysig ein bod yn ystyried hefyd sut y dylem ariannu'r sector.

Ar hyn o bryd, mae dysgu oedolion yng Nghymru yn cael ei ariannu fel rhan o'r gyllideb Ôl-16 – naill ai fel Grant Dysgu Cymunedol penodol trwy Awdurdodau Lleol (ALlau); neu fel rhan o'r ddarpariaeth brif ffrwd ran-amser trwy Sefydliadau Addysg Bellach (SABau).

**Grant Dysgu Cymunedol**
Ar hyn o bryd mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yn derbyn grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru, sef y Grant Dysgu Cymunedol. Mae'r arian hwn wedi'i neilltuo (ei glustnodi'n benodol) ar gyfer cyflenwi dysgu oedolion ac ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall yn ôl Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae'r Grant Dysgu Cymunedol wedi bod yn weithredol ers y flwyddyn 2000, ac mae'n seiliedig ar ymarferiad hanesyddol a gymerodd gyfran o'r Grant Cynnal Refeniw oddi ar ALlau a'i ailddosbarthu fel grant penodol ar gyfer dysgu oedolion.

Mae'r symiau a ddyfarnwyd i bob awdurdod lleol ers hynny wedi adlewyrchu'r swm y mae pob awdurdod wedi'i aberthu fel rhan o'r dadgyfuno hwnnw. Ni chafwyd unrhyw newidiadau i'r Grant Dysgu Cymunedol tan 2014-15, a bryd hynny, o ganlyniad i ostyngiadau helaeth i'r gyllideb ôl-16 gostyngwyd y Grant Dysgu Cymunedol 37.5%. Ers hynny, mae'r Grant Dysgu Cymunedol wedi aros yn gymharol sefydlog ac yn 2017-18 derbyniodd gynnydd o 13%.

Cyfanswm gwerth y Grant Dysgu Cymunedol ar gyfer 2018-19 yw **£4,306,832.**

| Awdurdod Lleol | Cyfanswm dyraniad 2018-19 - £ |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 11,723 |
| Cyngor Gwynedd | 7,033 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 7,033 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 100,814 |
| Cyngor Sir y Fflint | 2,344 |
| Cyngor Sir Wrecsam | 93,780 |
| Cyngor Sir Powys | 128,166 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 71,344 |
| Cyngor Sir Penfro | 450,720 |
| Cyngor Sir Gâr | 180,220 |
| Dinas a Sir Abertawe | 173,153 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | 254,770 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 151,611 |
| Cyngor Sir Bro Morgannwg | 267,879 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 200,846 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 45,327 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 304,785 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 327,449 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 89,091 |
| Cyngor Sir Fynwy | 2,344 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 371,995 |
| Cyngor Sir Caerdydd | 1,064,405 |
| **CYFANSWM** | **4,306,832** |

Mae'r Grant Dysgu Cymunedol wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd, ac mae awdurdodau lleol a darparwyr eraill wedi datblygu systemau ar gyfer darparu dysgu oedolion sy'n ystyried y gwahanol lefelau ariannu ar gyfer pob awdurdod lleol.

Rydym yn credu bod angen datblygu system ariannu newydd er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei ddosbarthu mewn ffordd decach sy'n mynd i'r afael blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

**Darpariaeth brif ffrwd ran-amser mewn SABau**

Mae llawer o Golegau Addysg Bellach yn cyfrannu llawer iawn at gyflenwi dysgu oedolion, ac yn wir mewn rhai ardaloedd nhw yw'r prif ddarparwr neu'r unig ddarparwr. Nid oes dim o'r cyllid a ddyrennir i addysg bellach yn cael ei dargedu'n benodol at gyflenwi dysgu oedolion, er bod gofynion ar y colegau i gyflenwi Sgiliau Hanfodol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) – sy'n flaenoriaethau dysgu oedolion.

Ac eithrio Addysg Oedolion Cymru y gellir dosbarthu ei ddarpariaeth gyfan fel dysgu oedolion, mae Colegau AB yn dyrannu eu cyllid i gefnogi darpariaeth amser llawn a rhan amser yn ôl, blaenoriaethau'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a'u gwybodaeth eu hunain am y farchnad lafur a'r galw gan ddysgwyr.

Disgwylir iddynt gefnogi dysgu oedolion a gwneud hynny trwy eu dyraniadau cyllid rhan-amser – ond nid oes ganddynt unrhyw dargedau llym y disgwylir iddynt eu bodloni. Maen nhw'n penderfynu pa ddarpariaeth oedolion y maen nhw'n bwriadu ei chyflenwi – gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau ar gyfer cyflwyno Sgiliau Hanfodol ac ESOL – ac yna caiff y ddarpariaeth ei chyflwyno naill ai'n uniongyrchol gan y Coleg AB ei hun, neu drwy gytundebau breiniol gydag awdurdodau lleol. Mae'r buddsoddiad mewn dysgu oedolion gan AB yn amrywio'n flynyddol, ond mae oddeutu £1.5m (breiniol) a £3.5m (cyflenwi uniongyrchol). Ychydig iawn o gysondeb sydd yna yn y symiau o arian a fuddsoddir mewn dysgu oedolion gan SABau ledled Cymru, sy'n golygu bod amrywiaeth fawr o ran mynediad a chyfleoedd yn dibynnu ble rydych chi'n byw yng Nghymru.

O ganlyniad i ostyngiadau cyllidebol sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae ariannu rhan-amser mewn AB wedi gostwng bron i 70% mewn termau real. Tra bod cyllid ar gyfer sgiliau hanfodol wedi cael ei ddiogelu, mae'r toriadau hyn wedi effeithio'n ddieithriad ar y swm o arian a fuddsoddir mewn dysgu oedolion, a'r seilwaith yn y colegau oedd yn cefnogi'r gwaith cyflenwi. O ganlyniad, diddymodd nifer o Golegau AB eu rhaglen allgymorth – a oedd yn golygu eu bod yn rhoi'r gorau i gyflenwi darpariaeth yn y gymuned, ac yn lle hynny yn canolbwyntio eu darpariaeth ar gyflenwi o fewn eu campysau.

Mae dau o'r tri model ym Mhennod 1 yn dibynnu ar system ddiwygiedig o ddyrannu'r Grant Dysgu Cymunedol. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y credwn y gallwn gyflawni hyn mewn ffordd decach a mwy cyfiawn.

## *Opsiynau ar gyfer newid y ffordd rydym yn dosbarthu'r Grant Dysgu Cymunedol (GDC)*

Er mwyn sicrhau mynediad tecach a mwy cyfartal i ddarpariaeth dysgu oedolion ledled Cymru, credwn fod angen methodoleg newydd i ddyrannu arian ar gyfer dysgu oedolion mewn ffordd fwy adeiladol a chytbwys.

Fel y dengys y tabl canlynol, oherwydd y fethodoleg ariannu gyfredol, pe baem yn cyfrifo ac yn dangos y dyraniadau ar sail poblogaeth, mae'r swm o arian a ddarperir ar gyfer pob dysgwr unigol ledled Cymru yn anghyson iawn. Er enghraifft, yn Sir y Fflint rydym yn ariannu'r awdurdod lleol ar lefel sy'n cyfateb i 2c y dysgwr, tra ym Mlaenau Gwent, mae gwerth y grant yn cyfateb i £5.95 y dysgwr.

| **Awdurdod Lleol** | **Poblogaeth 19+ oed** | **Dyraniad Presennol** | **Arian cyfredol y pen** |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 55,539 | £11,723 | £0.21 |
| Gwynedd | 98,575 | £7,033 | £0.07 |
| Conwy | 93,789 | £7,033 | £0.07 |
| Sir Ddinbych | 74,268 | £100,814 | £1.36 |
| Sir y Fflint | 120,646 | £2,344 | £0.02 |
| Wrecsam | 105,783 | £93,780 | £0.89 |
| Powys | 106,126 | £128,166 | £1.21 |
| Ceredigion | 60,790 | £71,344 | £1.17 |
| Sir Benfro | 98,278 | £450,720 | £4.59 |
| Sir Gâr | 146,400 | £180,220 | £1.23 |
| Abertawe | 194,177 | £173,153 | £0.89 |
| Castell-nedd Port Talbot | 111,977 | £254,770 | £2.28 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 112,367 | £151,611 | £1.35 |
| Bro Morgannwg | 99,867 | £267,879 | £2.68 |
| Rhondda Cynon Taf | 185,582 | £200,846 | £1.08 |
| Merthyr Tudful | 46,477 | £45,327 | £0.98 |
| Caerffili | 139,964 | £304,785 | £2.18 |
| Blaenau Gwent | 55,060 | £327,449 | £5.95 |
| Torfaen | 71,855 | £89,091 | £1.24 |
| Sir Fynwy | 74,136 | £2,344 | £0.03 |
| Casnewydd | 113,384 | £371,995 | £3.28 |
| Caerdydd | 282,928 | £1,064,405 | £3.76 |
| **Cyfanswm** | **2,447,968** | **£4,306,832** | **£1.76** |

Er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei ddosbarthu'n decach, ein cam cyntaf yw sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn cael ei ariannu ar lefel gyson y pen.

Mae nifer o opsiynau ar gyfer dyrannu arian wedi cael eu hystyried, a chânt eu hamlinellu'n fwy manwl isod. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi amlinellu pedwar opsiwn ar gyfer dyrannu'r GDC:

A) dyrannu'r grant yn ôl y boblogaeth (19+ oed)
B) dyrannu'r grant i gynnwys arian i adlewyrchu Amddifadedd Incwm
C) dyrannu'r grant i gynnwys arian i adlewyrchu Amddifadedd Addysgol (oedolion 25+ oed [1] heb unrhyw gymwysterau)
D) Trosglwyddo'r arian ar gyfer y Grant Dysgu Cymunedol i'r Grant Cynnal Refeniw

Mae'r polisi *Dysgu Oedolion yng Nghymru* yn ei gwneud yn glir mai'r flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yw canolbwyntio'r arian sydd ar gael ar y rhai sydd â'r angen mwyaf.

Hoffem gael eich help chi i benderfynu pa un o'r opsiynau hyn fyddai'n ein galluogi i wneud hynny yn eich barn chi.

Byddai'r holl fethodolegau ariannu a amlinellir yn yr opsiynau hyn yn destun adolygiad rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu anghenion y boblogaeth.

Rydym yn ymwybodol y byddai unrhyw newidiadau i ddosbarthiad y GDC yn golygu y bydd rhai awdurdodau lleol yn derbyn llai o arian o lawer na'r hyn y maent yn ei gael ar hyn o bryd. Mae'n anochel y bydd hyn yn cael effaith ar gyflenwi'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd hynny.

Bydd yn bwysig wrth i ni ddatblygu unrhyw un o'r opsiynau hyn ein bod yn gweithio gyda darparwyr ar draws y rhanbarth i ddod o hyd i ffyrdd o liniaru unrhyw effeithiau negyddol. Dyma lle mae pwysigrwydd partneriaethau yn dod yn fwy perthnasol fyth hyd yn oed.

Ond rydym yn credu'n gryf ei bod hi'n hollbwysig ein bod yn gwneud y newidiadau hyn i sicrhau bod yr arian sydd ar gael i ni yn cael ei ddosbarthu mewn ffordd decach a mwy cyfartal. Wrth edrych i'r dyfodol, mae'n rhaid i ni gael system ar gyfer ariannu dysgu oedolion sy'n cefnogi amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac i wneud hynny mae'n rhaid i ni fod yn sicr bod pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth a gynigiwn.

### *Opsiwn A – dyrannu'r grant yn ôl y boblogaeth (19+ oed).*

Mae'r opsiwn hwn yn dyrannu'r cyllid yn ôl y boblogaeth oedolion (19+ oed) ym mhob ardal awdurdod lleol[2].

Er mwyn pennu'r dyraniadau, rhannwyd cyfanswm y gyllideb gyfredol ar gyfer y Grant Dysgu Cymunedol (£4,306,832 ar gyfer 2018/19) gyda chyfanswm poblogaeth oedolion Cymru (2,447,968[1]). Rhoddodd hyn werth ariannu o £1.76 y pen. (4,306,832/2,447,968 = 1.76). Yna lluoswyd y ffigur hwn gyda phoblogaeth pob awdurdod lleol i gael dyraniad terfynol.

Efallai y bydd rhai mân anghysondebau'n digwydd oherwydd talgrynnu pwyntiau degol.

1 Dim ond ar gyfer oedolion 25+ oed y mae'r data ar gael ar gyfer y categori hwn
2 Ffigurau poblogaeth gan Stats Cymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-age

**Tabl 1 - Opsiwn A – dyrannu'r grant yn ôl y boblogaeth (19+ oed)**

| Awdurdod Lleol | Poblogaeth 19+ oed | GDC wedi'i bennu ar sail ariannu cyfartal y pen @1.76* |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 55,539 | **£97,713** |
| Gwynedd | 98,575 | **£173,428** |
| Conwy | 93,789 | **£165,008** |
| Sir Ddinbych | 74,268 | **£130,663** |
| Sir y Fflint | 120,646 | **£212,259** |
| Wrecsam | 105,783 | **£186,109** |
| Powys | 106,126 | **£186,713** |
| Ceredigion | 60,790 | **£106,951** |
| Sir Benfro | 98,278 | **£172,905** |
| Sir Gâr | 146,400 | **£257,569** |
| Abertawe | 194,177 | **£341,625** |
| Castell-nedd Port Talbot | 111,977 | **£197,007** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 112,367 | **£197,693** |
| Bro Morgannwg | 99,867 | **£175,701** |
| Rhondda Cynon Taf | 185,582 | **£326,504** |
| Merthyr Tudful | 46,477 | **£81,769** |
| Caerffili | 139,964 | **£246,246** |
| Blaenau Gwent | 55,060 | **£96,870** |
| Torfaen | 71,855 | **£126,418** |
| Sir Fynwy | 74,136 | **£130,431** |
| Casnewydd | 113,384 | **£199,482** |
| Caerdydd | 282,928 | **£497,769** |
| **Cyfanswm** | **2,447,968** | **£4,306,832** |

Er y byddai dyrannu'r grant ar sail ffigurau poblogaeth yn unig yn ffordd gymharol syml o ddosrannu cyllid, efallai na fydd data poblogaeth ar ei ben ei hun yn rhoi adlewyrchiad cywir o angen o reidrwydd.

### *Opsiwn B – dyrannu'r grant i gynnwys arian i adlewyrchu Amddifadedd Incwm*

Byddai'r opsiwn hwn yn dyrannu'r arian trwy gyfuniad o boblogaeth ac Amddifadedd Incwm. Byddai hyn yn ein galluogi i dargedu arian at yr unigolion hynny sy'n byw mewn tlodi – boed y bobl hynny mewn gwaith ai peidio. At ddibenion yr enghraifft hon, mae 50% o gyfanswm y gyllideb wedi'i ddyrannu yn ôl y boblogaeth a 50% wedi'i ddyrannu i adlewyrchu Amddifadedd Incwm.

Er mwyn pennu'r dyraniadau, mae 50% o gyfanswm y gyllideb gyfredol ar gyfer y Grant Dysgu Cymunedol (£2,153,416 ar gyfer 2018/19) wedi'i rannu â chyfanswm poblogaeth oedolion Cymru (2,447,968). Rhoddodd hyn werth ariannu o £0.88 y pen (2,153,416/2,447,968 = 0.88). Yna lluoswyd y ffigur hwn gyda phoblogaeth pob awdurdod lleol i gael 50% o'r dyraniad terfynol.

Cafwyd gweddill y dyraniadau drwy rannu'r 50% sy'n weddill o gyfanswm y gyllideb gyfredol ar gyfer y Grant Dysgu Cymunedol (£2,153,416 ar gyfer 2018/19) gyda chyfanswm poblogaeth oedolion Cymru y tybir eu bod yn byw gydag Amddifadedd Incwm[3] (334,070). Rhoddodd hyn werth ariannu o £6.25 y pen (2,153,416/3 34,070 = 6.45). Yna lluoswyd y ffigur hwn gyda phoblogaeth pob awdurdod lleol y tybir eu bod yn byw gydag Amddifadedd Incwm i gael 50% olaf y dyraniad.

Yna ychwanegwyd y ddau ffigur yma at ei gilydd i bennu'r dyraniad terfynol ar gyfer Opsiwn B.

**Tabl 2 - Opsiwn B – dyrannu'r GDC i gynnwys arian i adlewyrchu Amddifadedd Incwm**

| Awdurdod Lleol | Poblogaeth 19+ | 50% o gyllid GDC y pen @ £ 0.88 | Pob. gydag Amddifadedd Incwm | Arian amddifadedd incwm (50% o'r GDC) y pen @ £6.45 | Cyfanswm Dyraniad deilliedig |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 55,539 | £48,856 | 7,410 | £47,765 | **£96,621** |
| Gwynedd | 98,575 | £86,714 | 11,435 | £73,710 | **£160,424** |
| Conwy | 93,789 | £82,504 | 12,650 | £81,542 | **£164,046** |
| Sir Ddinbych | 74,268 | £65,332 | 11,365 | £73,259 | **£138,591** |
| Sir y Fflint | 120,646 | £106,129 | 12,985 | £83,701 | **£189,831** |
| Wrecsam | 105,783 | £93,055 | 13,600 | £87,666 | **£180,720** |
| Powys | 106,126 | £93,356 | 10,415 | £67,135 | **£160,491** |
| Ceredigion | 60,790 | £53,475 | 6,160 | £39,707 | **£93,183** |
| Sir Benfro | 98,278 | £86,453 | 12,505 | £80,607 | **£167,060** |
| Sir Gâr | 146,400 | £128,784 | 19,165 | £123,538 | **£252,322** |
| Abertawe | 194,177 | £170,813 | 27,835 | £179,424 | **£350,237** |
| Castell-nedd Port Talbot | 111,977 | £98,503 | 18,815 | £121,282 | **£219,785** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 112,367 | £98,846 | 15,650 | £100,880 | **£199,726** |
| Bro Morgannwg | 99,867 | £87,850 | 11,145 | £71,841 | **£159,691** |
| Rhondda Cynon Taf | 185,582 | £163,252 | 29,995 | £193,348 | **£356,600** |
| Merthyr Tudful | 46,477 | £40,885 | 7,805 | £50,311 | **£91,196** |
| Caerffili | 139,964 | £123,123 | 21,940 | £141,425 | **£264,548** |
| Blaenau Gwent | 55,060 | £48,435 | 10,230 | £65,943 | **£114,378** |
| Torfaen | 71,855 | £63,209 | 10,670 | £68,779 | **£131,988** |
| Sir Fynwy | 74,136 | £65,216 | 6,570 | £42,350 | **£107,566** |
| Casnewydd | 113,384 | £99,741 | 17,895 | £115,351 | **£215,092** |
| Caerdydd | 282,928 | £248,885 | 37,830 | £243,852 | **£492,737** |
| **CYFANSWM Cymru** | **2,447,968** | **£2,153,416** | **334,070** | **£2,153,416** | **£4,306,832** |

Gall mân anghysondebau'n digwydd o ganlyniad i dalgrynnu pwyntiau degol.

Byddai'r dull hwn yn caniatáu i'r arian gael ei dargedu at yr ardaloedd hynny yng Nghymru lle mae ffigurau Amddifadedd Incwm yn awgrymu y gallai'r angen am ein cefnogaeth fod fwyaf.

[3] Ffynonellau: Astudiaeth Hydredol Gwaith a Phensiynau 100% DWP, Data Credydau Treth CThEM, data ceiswyr lloches y Swyddfa Gartref, data llwyth achosion Credyd Cynhwysol DWP.

Gellir addasu canran yr arian a ddyrennir naill ai yn ôl poblogaeth neu Amddifadedd Incwm er mwyn cyd-fynd â'r rhaniad a ffefrir yn y gymhareb. Mewn geiriau eraill, gallem ddyrannu mwy neu lai o'r gyllideb gyffredinol i adlewyrchu ffigurau amddifadedd incwm pe dymunwn wneud hynny.

***Opsiwn C - dyrannu'r grant i gynnwys arian i adlewyrchu Amddifadedd Addysgol (oedolion 25+ oed[4] heb unrhyw gymwysterau)***

Mae'r opsiwn hwn yn debyg iawn i Opsiwn B, ond yn hytrach nag Amddifadedd Incwm, mae'r ffigyrau'n cael eu pennu yn ôl niferoedd y boblogaeth oedolion (25+ oed) sydd heb unrhyw gymwysterau. DS Nid yw'r ffigyrau ar gael ar gyfer oedolion 19+, ond credwn fod y ffigurau a ddefnyddir isod yn adlewyrchu'r boblogaeth oedolion yn gyffredinol, ac felly'n briodol ar gyfer dosbarthu'r arian.

At ddibenion yr enghraifft hon, mae 50% o gyfanswm y gyllideb wedi'i ddyrannu yn ôl y boblogaeth a 50% wedi'i ddyrannu i adlewyrchu amddifadedd addysgol.

Er mwyn pennu'r dyraniadau, mae 50% o gyfanswm y gyllideb gyfredol ar gyfer y Grant Dysgu Cymunedol (£2,153,416 ar gyfer 2018/19) wedi'i rannu â chyfanswm poblogaeth oedolion Cymru (2,447,968). Rhoddodd hyn werth ariannu o £0.88 y pen. (2,153,416/2,447,968 = 0.88). Yna lluoswyd y ffigur hwn gyda phoblogaeth pob awdurdod lleol i gael 50% o'r dyraniad terfynol.

Mae gweddill y dyraniad yn deillio o rannu'r 50% sy'n weddill o gyfanswm y gyllideb gyfredol ar gyfer y Grant Dysgu Cymunedol (£ 2,153,416 ar gyfer 2018/19) gyda chyfanswm poblogaeth oedolion Cymru (25+) sydd heb unrhyw gymwysterau[5] (304,117). Rhoddodd hyn werth ariannu o £7.08 y pen. (2,153,416/304,117 = 7.08). Yna lluoswyd y ffigur hwn gyda phoblogaeth pob awdurdod lleol y tybir eu bod yn byw gydag Amddifadedd Addysgol i gael 50% olaf y dyraniad.

Yna ychwanegwyd y ddau ffigur yma at ei gilydd i bennu'r dyraniad terfynol ar gyfer Opsiwn C.

Byddai'r dull hwn yn caniatáu i'r arian gael ei dargedu at yr ardaloedd hynny yng Nghymru lle mae'r boblogaeth fwyaf o bobl heb gymwysterau, a gellid dadlau felly, lle mae'r angen mwyaf am ein cefnogaeth.

Yn yr un modd â'r enghraifft flaenorol, gellir addasu'r ganran o arian a ddyrennir naill ai yn ôl poblogaeth neu amddifadedd addysgol er mwyn cyd-fynd â'r rhaniad a ffefrir yn y gymhareb. Mewn geiriau eraill, gallem ddyrannu mwy neu lai o'r gyllideb gyffredinol i adlewyrchu ffigurau amddifadedd addysgol pe dymunwn wneud hynny.

[4] Dim ond ar gyfer oedolion 25+ oed y mae data ar gael ar gyfer y categori hwn

[5] Ffynhonnell: ONS Cedwir Hawlfraint y Goron [o Nomis ar 21 Rhagfyr 2017]

**Tabl 3 - Opsiwn C – dyrannu'r GDC i gynnwys arian i adlewyrchu Amddifadedd Addysgol**

| Awdurdod Lleol | Poblogaeth 19+ | 50% o gyllid GDC y pen @ £0.88 | Pob. 25+ heb unrhyw gymwysterau | Arian amddifadedd addysgol (50% o'r GDC) y pen @ £7.08 | Cyfanswm Dyraniad deilliedig |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 55,539 | £48,856 | 5,969 | £42,266 | **£91,122** |
| **Gwynedd** | 98,575 | £86,714 | 9,779 | £69,244 | **£155,958** |
| **Conwy** | 93,789 | £82,504 | 9,441 | £66,851 | **£149,354** |
| **Sir Ddinbych** | 74,268 | £65,332 | 8,330 | £58,984 | **£124,315** |
| **Sir y Fflint** | 120,646 | £106,129 | 12,910 | £91,414 | **£197,543** |
| **Wrecsam** | 105,783 | £93,055 | 14,221 | £100,697 | **£193,752** |
| **Powys** | 106,126 | £93,356 | 10,828 | £76,672 | **£170,028** |
| **Ceredigion** | 60,790 | £53,475 | 5,040 | £35,688 | **£89,163** |
| **Sir Benfro** | 98,278 | £86,453 | 10,178 | £72,069 | **£158,522** |
| **Sir Gâr** | 146,400 | £128,784 | 17,266 | £122,258 | **£251,043** |
| **Abertawe** | 194,177 | £170,813 | 22,499 | £159,313 | **£330,125** |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 111,977 | £98,503 | 17,492 | £123,859 | **£222,362** |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 112,367 | £98,846 | 16,306 | £115,461 | **£214,307** |
| **Bro Morgannwg** | 99,867 | £87,850 | 9,302 | £65,866 | **£153,717** |
| **Rhondda Cynon Taf** | 185,582 | £163,252 | 30,583 | £216,555 | **£379,806** |
| **Merthyr Tudful** | 46,477 | £40,885 | 8,740 | £61,887 | **£102,772** |
| **Caerffili** | 139,964 | £123,123 | 23,044 | £163,172 | **£286,295** |
| **Blaenau Gwent** | 55,060 | £48,435 | 10,612 | £75,142 | **£123,577** |
| **Torfaen** | 71,855 | £63,209 | 10,042 | £71,106 | **£134,315** |
| **Sir Fynwy** | 74,136 | £65,216 | 6,204 | £43,930 | **£109,145** |
| **Casnewydd** | 113,384 | £99,741 | 15,279 | £108,189 | **£207,930** |
| **Caerdydd** | 282,928 | £248,885 | 30,052 | £212,795 | **£461,679** |
| **CYFANSWM Cymru** | **2,447,968** | **£2,153,416** | **304,117** | **£2,153,416** | **£4,306,832** |

Gall mân anghysondebau'n digwydd o ganlyniad i dalgrynnu pwyntiau degol.

## Opsiwn D – Trosglwyddo'r arian ar gyfer y Grant Dysgu Cymunedol i'r Grant Cynnal Refeniw (GCR)

Mae Llywodraeth Leol yn awyddus i gael gwared ar yr elfen neilltuedig o'r grantiau y mae'n eu derbyn gan Lywodraeth Cymru a chael yr hyblygrwydd i dargedu ei chyllid lle mae'n teimlo y mae'r angen mwyaf. Byddai hyn yn lleihau'r fiwrocratiaeth a'r costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r grantiau'n sylweddol ac yn rhoi mwy o ryddid a chyfrifoldeb i awdurdodau o ran gwneud penderfyniadau ar lefel leol.

Er y byddai trosglwyddo i'r GCR yn dileu'r elfen neilltuedig o'r grant, byddai'r disgwyliad yn parhau i ddefnyddio'r arian i gefnogi dysgu oedolion. Byddai'r gwerth grant cyffredinol (£4.3 miliwn ar hyn o bryd) yn trosglwyddo i'r GCR cyffredinol. Heb neilltuo grant penodol, byddai angen ystyried y ffordd orau o weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y canlyniadau a ddymunir yn dal i gael eu cyflawni.

Mater i'r Is-grŵp Dosbarthu fyddai ystyriaethau dosbarthu'r grant hwn wrth drosglwyddo i'r GCR – gweithgor technegol y mae ei aelodau'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, uwch swyddogion llywodraeth leol o bob cwr o Gymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac arbenigwyr annibynnol, i sicrhau bod y ffactorau gwahanol yn cael eu trin yn deg. Mae yna botensial i glustnodi'r arian hwn ar wahân yn y GCR am ddwy flynedd gyntaf y trosglwyddiad cyn iddo gael ei gynnwys yn y fformiwla ehangach. Un o'r opsiynau mwy amlwg ar gyfer dosbarthu'r arian hwn ar ôl trosglwyddo i'r setliad fyddai dosbarthu ar y fformiwla *Addysg Oedolion ac Addysg Barhaus* bresennol, sy'n seiliedig ar 80% ar boblogaeth ac 20% ar hawlwyr budd-daliadau.

Mae'r tabl canlynol yn dangos sut y gallai hyn weithio yn seiliedig ar gyllideb bresennol GDC:

**Tabl 4 – trosglwyddo GDC i GCR a dyrannu'n ôl y fformiwla GCR bresennol.**

| Dosbarthu GDC ar sail cyfraddau IBA Addysg Oedolion ac Addysg Barhaus | | | |
|---|---|---|---|
| | IBA* Addysg Oedolion ac Addysg Barhaus 2018-19 | Cyfran Gyfansawdd | Dyraniad o'r GDC a drosglwyddwyd |
| Ynys Môn | £149,866 | 2.30% | £98,617 |
| Gwynedd | £256,866 | 3.90% | £169,027 |
| Conwy | £252,118 | 3.90% | £165,902 |
| Sir Ddinbych | £206,334 | 3.20% | £135,775 |
| Sir y Fflint | £310,321 | 4.70% | £204,202 |
| Wrecsam | £287,849 | 4.40% | £189,415 |
| Powys | £267,754 | 4.10% | £176,191 |
| Ceredigion | £156,538 | 2.40% | £103,008 |
| Sir Benfro | £259,976 | 4.00% | £171,073 |
| Sir Gâr | £387,697 | 5.90% | £255,118 |
| Abertawe | £517,976 | 7.90% | £340,846 |
| Castell-nedd Port Talbot | £308,431 | 4.70% | £202,958 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £298,980 | 4.60% | £196,739 |
| Bro Morgannwg | £257,792 | 3.90% | £169,636 |
| Rhondda Cynon Taf | £511,649 | 7.80% | £336,682 |
| Merthyr Tudful | £128,967 | 2.00% | £84,865 |
| Caerffili | £387,787 | 5.90% | £255,177 |
| Blaenau Gwent | £158,547 | 2.40% | £104,330 |
| Torfaen | £194,291 | 3.00% | £127,850 |
| Sir Fynwy | £184,124 | 2.80% | £121,160 |
| Casnewydd | £312,500 | 4.80% | £205,636 |
| Caerdydd | £748,630 | 11.40% | £492,625 |
| Cymru | £6,544,994 | 100.00% | £4,306,832 |

*IBA – Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion

Mae manteision amlwg i'r dull hwn, ac un o'r mwyaf yw y byddai'n lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r grant yn sylweddol. Byddai'n rhoi'r rhyddid a'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol dargedu eu harian lle y dymunant hefyd.

Ond mae yma risg hefyd. Gan na fydd yna grant wedi'i neilltuo ar gyfer dysgu oedolion mwyach, efallai ei bod yn anochel y byddwn yn gweld gostyngiad yng nghyfanswm y dysgu oedolion sy'n cael ei ddarparu yn y gymuned.

Mae cyllidebau awdurdodau lleol dan lawer iawn o straen, a heb neilltuo grant arbenigol, mae risg uchel na fyddai'r arian yn cael ei wario ar ddysgu oedolion ond y byddai'n cael ei amsugno i'r cyllid cyffredinol o fewn Awdurdodau Lleol.

Byddai trosglwyddo'r Grant Dysgu Cymunedol i'r GCR yn effeithio ar **bob** awdurdod lleol. Fel y cyfryw, byddai'n negyddu'r opsiynau ar gyfer cyflenwi yr ydym wedi'u trafod ym Mhennod 1. Os trosglwyddir y GDC i'r GCR, ni fyddem yn rheoli'r gyllideb benodol honno mwyach ac felly byddai'n dibynnu ar awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn cydweithio i ddarparu cyfleoedd dysgu i oedolion.

***'Atebion Creadigol'***

Wrth benderfynu ar yr opsiynau hyn, mae yna gyfle hefyd i greu cronfa 'Atebion Creadigol'. Byddai'r gronfa hon yn neilltuo cyfran o'r gyllideb GDC sydd ar gael a gallai Partneriaethau Dysgu Oedolion gyflwyno cynigion am y gyfran honno. Byddai disgwyl i'r partneriaethau naill ai feddwl am brosiectau neu fentrau newydd neu ffyrdd newydd ac arloesol o gyflenwi'r ddarpariaeth gyfredol.

Mae prosiectau Atebion Creadigol wedi'u cynnal mewn meysydd eraill yn Llywodraeth Cymru ac fe'u hystyrir yn ffordd gadarnhaol o annog ymdrin â phroblemau sy'n bodoli eisoes mewn ffordd sy'n fwy arloesol.

Y ffordd o feddwl gychwynnol yw y byddai unrhyw fentrau newydd y cytunir arnynt yn cael eu hariannu dros ddwy flynedd academaidd i ganiatáu gwerthuso priodol, a byddai cynigion ar gyfer prosiectau yn cael eu derbyn bob dwy flynedd ariannol.

Er nad oes cyllideb mewn golwg ar gyfer y gronfa Atebion Creadigol, dylai fod yn glir iawn na fyddai unrhyw arian ychwanegol ar gael a byddai dyraniad pob ALl yn cael ei leihau i ariannu'r mentrau hyn. Er enghraifft, pe bai penderfyniad yn cael ei wneud y byddai'r gronfa Atebion Creadigol yn gyfanswm o 10% o'r GDC cyffredinol, yna byddai dyraniad pob ALl yn cael ei leihau 10% i greu'r gronfa.

**Casgliad**

Byddai'r pedwar opsiwn a drafodir yn yr adran hon yn cael effeithiau gwahanol ar yr awdurdodau lleol. Bydd yn bwysig wrth benderfynu pa opsiwn sydd fwyaf ffafriol i ystyried yr effaith bosib ar y dysgwyr y bwriedir i'r cyllid hwn eu cynorthwyo.

**Ystyriwch yr opsiynau uchod ac atebwch y cwestiynau canlynol:**

**C13 - Pa un o'r opsiynau ariannu ym Mhennod 1 ydych chi'n ei gefnogi, a pham?**

A – dyraniad sy'n seiliedig ar y boblogaeth yn unig
B – dyraniad sy'n seiliedig ar y boblogaeth ac Amddifadedd Incwm
C – dyraniad sy'n seiliedig ar y boblogaeth ac Amddifadedd Addysg
D – diddymu'r GDC a throsglwyddo'r cyllid i'r GCR

**C14 - Pam ydych chi'n credu mai'r opsiwn hwn fyddai orau i ddysgwyr?**

**C15 - Beth sydd wedi dylanwadu ar eich barn chi?**

**C16 - Fyddech chi'n cefnogi'r syniad o ganran o'r arian yn cael ei neilltuo bob blwyddyn i ariannu prosiectau *Atebion Creadigol* yn y sector?**

**C17 - Sut allai hyn weithio yn eich ardal awdurdod unedol?**

## Casgliad

Ni fydd newid y ffordd rydym yn darparu ac yn ariannu dysgu oedolion yn dasg hawdd – mae'r systemau presennol yn gymhleth ac wedi bod yn weithredol ers cryn amser. Ond, os ydym am ymateb i argymhellion adolygiadau Arad ac Estyn, a sicrhau bod gennym sector dysgu oedolion sy'n addas ar gyfer y dyfodol, yna rhaid i ni wneud y newidiadau angenrheidiol.

Datblygwyd yr opsiynau a amlinellir yn nwy bennod y ddogfen hon mewn partneriaeth â'r sector dysgu oedolion, a nod pob un ohonynt yw sicrhau bod y ddarpariaeth dysgu oedolion rydym yn ei hariannu yn hygyrch i bob dysgwr yng Nghymru.

Mae ein gweledigaeth yn glir – rydym am weld Cymru lle mae dysgu wrth wraidd popeth a wnawn; lle mae cyfranogi mewn dysgu yn cael ei annog a'i wobrwyo; a lle mae gan bobl gyfle cyfartal i ennill y sgiliau ar gyfer bywyd a gwaith sydd eu hangen arnynt i ffynnu.

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori hon. Atebwch y cwestiynau ar y ffurflen ymateb sydd ar gael ar y Rhyngrwyd. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi maes o law.